# Y Rhyfel Byd Cyntaf : The First World War

# Gwytherin

## Y Milwyr a Fu Farw • The Soldiers Who Died

**Arthur Clarke Williams**, Preifat 12238, 8fed Bataliwn, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Ganed Arthur yn 1894 yn un o wyth o blant a aned i Evan ac Ellen Williams, yn Nhyddyn Deicws. Aeth y teulu o Dyddyn Deicws i Ddyffryn Aur, Llanrwst, ar droad y ganrif. Ymrestrodd Arthur â'r fyddin yn Wrecsam. Fe'i lladdwyd yn yr ymladd yn Gallipoli yn ugain oed ar 20-8-1915, ac y mae coffa amdano ar Gofeb Helles, Twrci. (Panel 77-80)

**William Thomas Davies**, Preifat 53605, Bataliwn 1af, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Ganed William yn Llansannan yn fab i Winifred a Thomas Price Davies. Roedd y teulu'n byw yn Dolfrwynog pan dorrodd y rhyfel allan. Aethant oddi yno i Tŷ Bont, Rhydlanfair. Ymrestrodd William â'r fyddin yn Llanrwst. Bu farw'n 19 oed ar 30-3-1917 yn Ffrainc. Mae coffa amdano ar gofeb Arras, Pas de Calais, Ffrainc.

**Robert Roberts,** Is-Gorporal 19377, 16eg Bataliwn, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Robert oedd yr hynaf o 9 o blant Peter ac Anne Roberts, Tŷ Cornel. Roedd yn gweithio ym Mhlas Ucha ar ddechrau'r rhyfel ac ymunodd â'r fyddin yn 1915 gan ymrestru yn Ninbych. Bu farw o'i glwyfau mewn ysbyty yn Ffrainc, yn 24 oed, ar 9-10-1918. Enillodd y 'Military Medal and Clasp'. Fe'i claddwyd ym Mynwent Brydeinig Beaulencourt, Ligny-Thiley, Pas de Calais, Ffrainc, (plot 1, rhes A, bedd 14).

**Idwal Davies**, Preifat 81762, Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin (10fed Ambiwlans Maes y Gad Cyfun). Ganed Idwal yng Ngwytherin yn fab i Jonathan a Mary Davies. Bu ei fam yn cadw'r Swyddfa Bost yno. Aeth y teulu oddi yma i Gorris, Sir Feirionnydd. Ymrestrodd Idwal yn y Rhyl. Wedi bod yn gweini ar y clwyfedig yn y rhyfel bu Idwal farw o salwch. Mae coffa amdano ym Mynwent Coffáu'r Rhyfel yn Hadra, Alexandria, Yr Aifft, ymhle y claddwyd ef. Fe'i claddwyd yn Plot XX, rhes C, bedd 14.

**Arthur Jones**, Preifat 39327, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, 8fed Bataliwn. Arthur oedd mab hynaf Thomas a Mary Jones, Cerrigellgwm Isaf, Ysbyty Ifan. Wedi cael ei addysg yn Ysgol Elfennol Glasfryn ac Ysgol Sirol y Bala, bu'n Isathro Ysgol yng Ngwytherin. Wedi ymuno â'r fyddin o'i wirfodd, gan ymrestru yn Llanrwst, ymhen ychydig amser anfonwyd ef i Fesopotamia. Bu'n rhan o'r brwydro pryd y cymerwyd dinas Baghdad. Yn ôl yr hanes, bu farw mewn gwres mawr ar 23-7-1917 yn 27 oed. Mae coffa amdano ym Mynwent Ryfel y North Gate, Baghdad, Iraq.

**Hugh Edwards**, Preifat 35811, 14eg Bataliwn, Cyffinwyr De Cymru. Roedd Hugh yn fab i Thomas a Catherine Edwards, Y Lion. Ymrestrodd yn Wrecsam. Bu farw yn yr Ysbyty Milwrol Dros Dro ym Mangor, ar y pumed o Ebrill, 1916, ac fe'i claddwyd ym mynwent eglwys Gwytherin ymhen tridiau.

**Lloyd George Williams**, Preifat 24090, Bataliwn 1af, Catrawd Auckland, N.Z.E.F. Ymddengys ei enw ar Gofgolofn Gwytherin a'r gofeb ym Mhandy Tudur. (Gweler ei hanes ar ford Pandy Tudur).





Arthur Clarke Williams


William Thomas Davies


Robert Roberts


Arthur Jones

**Arthur Clarke Williams**, Private 12238, 8th Battalion, Royal Welsh Fusiliers. Arthur was born in 1894 at Tyddyn Deicws, one of eight children born to Evan and Ellen Williams. The family moved from Tyddyn Deicws to Dyffryn Aur, Llanrwst, at the turn of the century. Arthur enlisted in the army at Wrexham. He was killed in the fighting at Gallipoli at the age of twenty on 20-8-1915, and he is commemorated on the Helles Memorial, Turkey. (Panel 77-80)

**William Thomas Davies**, Private 53605, 1st Battalion, Royal Welsh Fusiliers. William was born in Llansannan, the son of Winifred and Thomas Price Davies. The family was living at Dolfrwynog when war broke out. They moved from there to Tŷ Bont, Rhydlanfair. William enlisted in the army at Llanrwst. He died in France at the age of 19 on 30-3-1917. He is commemorated on the Arras memorial, Pas de Calais, France.

**Robert Roberts**, Lance Corporal 19377, 16th Battalion, Royal Welsh Fusiliers. Robert was the eldest of the 9 children of Peter and Anne Roberts, Tŷ Cornel. He was working at Plas Ucha when the war began and joined the army in 1915, enlisting at Denbigh. He died of his wounds in a French hospital, at the age of 24, on 9-10-1918. He won the Military Medal and Clasp. He was buried at Beaulencourt British Cemetery, Ligny-Thiley, Pas de Calais, France, (plot 1, row A, grave 14).

**Idwal Davies**, Private 81762, Royal Army Medical Corps (10th Combined Field Ambulance). Idwal was born at Gwytherin, the son of Jonathan and Mary Davies. His mother ran the Post Office there. The family moved from there to Corris, Merionethshire. Idwal enlisted at Rhyl. After tending to those wounded in the war he himself died of illness. He is commemorated at Hadra War Memorial Cemetery, Alexandria, Egypt, where he was buried. He was buried in Plot XX, row C, grave 14.

**Arthur Jones**, Private 39327, Royal Welsh Fusiliers, 8th Battalion. Arthur was the eldest son of Thomas and Mary Jones, Cerrigellgwm Isaf, Ysbyty Ifan. Having been educated at Glasfryn Elementary School and Bala County School, he was an Assistant School Master at Gwytherin. Having joined the army voluntarily, enlisting at Llanrwst, he was very soon sent to Mesopotamia. He was part of the fighting when the city of Baghdad was taken. According to reports, he died in intense heat on 23-7-1917 at the age of 27. He is commemorated at the North Gate War Cemetery, Baghdad, Iraq.

**Hugh Edwards**, Private 35811, 14th Battalion, South Wales Borderers. Hugh was the son of Thomas and Catherine Edwards, The Lion. He enlisted at Wrexham. He died at the Temporary Military Hospital, Bangor, on the fifth of April, 1916, and was buried in Gwytherin church cemetery three days later.

**Lloyd George Williams**, Private 24090, 1st Battalion, Auckland Regiment, N.Z.E.F. His name appears on the Gwytherin Monument and on the memorial at Pandy Tudur. (See his account on the Pandy Tudur board).

Supported by The National Lottery® through the Heritage Lottery Fund
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri